Hawdd ei Ddeall

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

# Sut i bleidleisio drwy'r post

Mawrth 2026


Photosymbols®
Publisher Licence 403527247

# Am y ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Sut i bleidleisio drwy'r post**




Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Bwrdd Rheoli Etholiadol Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** bwrwpleidlais.cymru

**Ebost:** brhe@cdffc.llyw.cymru

**Ffôn:** 02920464819

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Sut i bleidleisio drwy'r post .......... 4**

**Pecyn pleidleisio drwy'r post .......... 8**

**Pryd i bleidleisio drwy'r post .......... 11**

**Ydy pleidleisio drwy'r post yn ddiogel? .......... 13**

**Ydw i'n gallu newid fy meddwl am bleidleisio drwy'r post? .... 14**

**Beth i'w wneud os nad ydy eich pleidlais bost yn cyrraedd .... 16**

**Beth os ydw i'n gwneud camgymeriad? .......... 17**

# Sut i bleidleisio drwy'r post




Rydych chi'n gallu pleidleisio drwy'r post yn lle yn bersonol os ydych chi eisiau.




I bleidleisio drwy'r post mae angen i chi wneud cais am bleidlais bost.




Rhaid i chi wneud cais am bleidlais bost erbyn **dydd Mawrth 21 Ebrill 2026**.





**Yn gyntaf, rhaid i chi gofrestru i bleidleisio.**




Darganfyddwch fwy am gofrestru i bleidleisio yma: **Pwy sydd yn gallu pleidleisio**.



Rydych chi'n gallu gwneud cais i bleidleisio drwy'r post ar gyfer 1 etholiad yn unig.




Neu rydych chi'n gallu gwneud cais i bleidleisio drwy'r post ym mhob etholiad Senedd a chyngor.




I wneud cais am bleidlais bost, rhaid i chi lenwi'r ffurflen yma: gov.uk/government/publications/apply-for-a-postal-vote



Fe fydd angen i chi wneud cais am bleidlais bost eto os byddwch yn symud tŷ neu'n newid eich enw.

**Fe fydd angen i chi:**




- Rhoi eich enw llawn.




- Rhoi'r cyfeiriad lle rydych wedi cofrestru i bleidleisio.




- Rhoi eich dyddiad geni.




- Dweud os ydych chi am bleidleisio drwy'r post mewn 1 etholiad neu bob etholiad.




- Rhoi’r cyfeiriad rydych chi am anfon eich pleidlais bost ato. Os ydy hyn yn wahanol i lle rydych chi’n byw, mae angen i chi ddweud pam rydych chi am ei anfon i rywle arall.





- Llofnodi’r ffurflen.



Fe fydd eich ffurflen yn cael ei gwirio. Os oes unrhyw broblemau, fe fyddwch yn cael gwybod.

# Pecyn pleidleisio drwy'r post





Pan fyddwch chi wedi cofrestru i bleidleisio drwy'r post, fe fyddwch chi'n cael pecyn pleidleisio drwy'r post.



Fe fydd hyn yn cael ei anfon i chi ychydig wythnosau cyn yr etholiad.




Dilynwch y cyfarwyddiadau yn y pecyn pleidleisio.




Fe fydd y pecyn yn cynnwys:

- Y papur pleidleisio – dyma'r papur rydych chi'n ei ddefnyddio i farcio'ch pleidlais.

- Datganiad pleidleisio drwy'r post – ffurflen ydy hon. Fe fydd angen i chi ysgrifennu eich enw, dyddiad geni a llofnod. Mae hefyd yn esbonio sut i ddefnyddio'r pecyn pleidleisio drwy'r post.

- 2 amlen.




Mae gennych chi 1 bleidlais.




Pleidleisiwch dros eich ymgeisydd neu blaid wleidyddol rydych chi'n eu dewis trwy roi **X** yn y blwch wrth ymyl eu henw.



Postiwch eich pleidlais mewn blwch post neu yn y swyddfa bost. Dydych chi ddim angen stamp.



Rydych chi'n gallu gofyn i rywun rydych chi'n ymddiried ynddyn nhw i'w bostio i chi. Peidiwch â gadael i unrhyw un arall ddefnyddio eich pleidlais bost.

# Pryd i bleidleisio drwy'r post



Mae'n well anfon eich pleidlais bost cyn gynted ag y gallwch.




Ond mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr bod eich pleidlais yn **cyrraedd erbyn 10pm** ar ddiwrnod yr etholiad i wneud yn siŵr ei bod yn cael ei chyfrif.




Rydych chi'n gallu mynd â'ch pleidlais bost i **orsaf bleidleisio** ar ddiwrnod yr etholiad. Fe fydd ar agor rhwng 7am a 10pm.




**Gorsaf bleidleisio** ydy’r lle rydych chi’n mynd i bleidleisio.




Mae **gorsafoedd pleidleisio** fel arfer mewn lleoedd fel llyfrgelloedd, ysgolion, a chanolfannau cymunedol.

# Ydy pleidleisio drwy'r post yn ddiogel?



Ydy – mae pleidleisio drwy'r post yn ddiogel.



Fe fydd eich pleidlais bost yn cael ei wirio i wneud yn siŵr mai chi sydd wedi ei llenwi.



Mae eich pleidlais yn breifat. Fydd neb yn gweld pwy rydych chi'n pleidleisio drosto.

# Ydw i'n gallu newid fy meddwl am bleidleisio drwy'r post?




Os ydych chi'n penderfynu peidio â phleidleisio drwy'r post, rydych chi'n gallu canslo'ch pleidlais bost.



Dywedwch wrth eich cyngor eich bod am ei ganslo cyn **5pm ar 21 Ebrill 2026**.



Mae manylion cyswllt eich cyngor yma: gov.uk/contact-electoral-registration-office




Dydych chi ddim yn gallu canslo'ch pleidlais bost os ydy wedi'i hanfon atoch yn barod.




Yn lle hynny, rydych chi'n gallu aros tan ddiwrnod yr etholiad a defnyddio'ch pleidlais bost mewn gorsaf bleidleisio.

# Beth i'w wneud os nad ydy eich pleidlais bost yn cyrraedd




Fe ddylech chi gael eich pleidlais bost erbyn **30 Ebrill 2026.**



Os ydych chi'n meddwl y dylai eich pleidlais bost fod wedi cyrraedd, siaradwch â'ch cyngor i holi.



Mae manylion cyswllt eich cyngor yma: gov.uk/contact-electoral-registration-office

# Beth os ydw i'n gwneud camgymeriad?




Dilynwch y cyfarwyddiadau yn eich pecyn pleidleisio drwy'r post.



Os ydych chi'n meddwl eich bod wedi gwneud camgymeriad ar ôl i chi ei anfon, siaradwch â'ch cyngor lleol.



Mae manylion cyswllt eich cyngor yma: gov.uk/contact-electoral-registration-office



Os ydych chi wedi llenwi'r datganiad yn gywir ac mae'n cyrraedd yn ôl mewn pryd, fe fydd yn cael ei gyfrif.



Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am bleidleisio drwy'r post, siaradwch â'ch cyngor.